O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 223 (Cy. 87)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau, Gweithdrefn a Chyhoeddi) (Cymru) 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â hysbysiadau o dan adrannau 37, 38 a 39 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") a sut a phryd y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC") i gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 40(1) o Ddeddf 2015.

Mae rheoliad 2 yn darparu mai'r cyfnod hwyaf y caniateir iddo gael ei bennu mewn hysbysiad o dan adran 37 o Ddeddf 2015 (hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd) yw blwyddyn.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn gan CCAUC mewn cysylltiad â thynnu'n ôl hysbysiad o dan adran 37 o Ddeddf 2015. Pan fo CCAUC yn tynnu hysbysiad o'r fath yn ôl, rhaid iddo roi copi o'r hysbysiad tynnu'n ôl i Weinidogion Cymru ar unwaith.

Mae rheoliadau 5 a 6 yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad o dan adran 38 o Ddeddf 2015 (dyletswydd CCAUC i dynnu cymeradwyaeth yn ôl). Effaith rheoliad 5(a) yw bod adrannau 42 i 44 o Ddeddf 2015, sy'n ymwneud â'r weithdrefn rhybuddio ac adolygu ar gyfer hysbysiadau a chyfarwyddydau penodol o dan y Ddeddf honno, yn gymwys mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad gan CCAUC o dan adran 38. Effaith rheoliadau 5(b) a 6 yw bod rheoliadau 2 i 10 o Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 hefyd yn gymwys, gydag addasiadau, i roi hysbysiadau o'r fath.

Mae rheoliadau 7 i 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 40(1) o Ddeddf 2015. Mae'r adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC, pan fydd yn rhoi hysbysiad o dan adran 37, 38 neu 39 o Ddeddf 2015, roi copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru a chyhoeddi'r hysbysiad. Pan fo CCAUC yn rhoi hysbysiad o dan unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru ar unwaith a chyhoeddi copi o'r hysbysiad ar ei wefan o fewn saith niwrnod i'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

Mae rheoliad 8 yn darparu ar gyfer pryd y mae hysbysiad o'r fath i gael ei drin fel pe bai wedi ei roi gan CCAUC at ddibenion rheoliad 7 ac mae rheoliadau 9 a 10 yn nodi am ba hyd y dylid cyhoeddi hysbysiadau o'r fath ar wefan CCAUC.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 223 (Cy. 87)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau, Gweithdrefn a Chyhoeddi) (Cymru) 2016

*Gwnaed* — *23 Chwefror 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* — *25 Chwefror 2016*

*Yn dod i rym* — *28 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 37(7)(a), 37(7)(c), 38(2)(b), 38(3) a 40(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau, Gweithdrefn a Chyhoeddi) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 28 Mawrth 2016.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ac mae cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf honno; a

(b) ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2015 dccc 1.
(**2**) O.S. 2015/1485 (Cy. 164).

**Y cyfnod hwyaf y caniateir iddo gael ei bennu mewn hysbysiad o dan adran 37 o Ddeddf 2015**

**2.** Y cyfnod hwyaf y caniateir iddo gael ei bennu mewn hysbysiad o dan adran 37 yw blwyddyn.

**Y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â thynnu'n ôl hysbysiad o dan adran 37 o Ddeddf 2015**

**3.**—(1) Caiff CCAUC dynnu'n ôl hysbysiad a roddir o dan adran 37 drwy roi hysbysiad tynnu'n ôl i gorff llywodraethu'r sefydliad.

(2) Rhaid i hysbysiad tynnu'n ôl o dan baragraff (1)—

(a) bod yn ysgrifenedig;

(b) bod wedi ei ddyddio; ac

(c) hysbysu corff llywodraethu'r sefydliad am y rhesymau dros dynnu'n ôl yr hysbysiad o dan adran 37.

(3) Y dyddiad y caiff hysbysiad o dan adran 37 ei dynnu'n ôl yw dyddiad yr hysbysiad tynnu'n ôl.

**4.** Os yw CCAUC wedi rhoi hysbysiad tynnu'n ôl o dan reoliad 3, rhaid iddo roi copi o'r hysbysiad tynnu'n ôl i Weinidogion Cymru ar unwaith.

**Y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad o dan adran 38 o Ddeddf 2015**

**5.** Yn ddarostyngedig i reoliad 6, mae'r darpariaethau a ganlyn yn gymwys mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad o dan adran 38—

(a) adrannau 42 i 44; a

(b) rheoliadau 2 i 10 o Reoliadau 2015.

**6.** Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2015 i gael ei ddarllen fel pe bai—

(a) "hysbysiad o dan adran 38 o Ddeddf 2015" wedi ei roi yn lle "hysbysiad neu gyfarwyddyd a bennir yn adran 41(1) o Ddeddf 2015"; a

(b) y geiriau "neu'r cyfarwyddyd" ym mharagraffau (a) i (c) wedi eu hepgor.

**Cydymffurfedd gan CCAUC ag adran 40(1) o Ddeddf 2015**

**7.** Os yw CCAUC yn rhoi hysbysiad o dan adran 37, 38 neu 39, rhaid iddo—

(a) rhoi copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru ar unwaith; a

(b) cyhoeddi copi o'r hysbysiad ar ei wefan o fewn y cyfnod o saith niwrnod sy'n dechrau

â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i gorff llywodraethu'r sefydliad.

**8.** At ddibenion rheoliad 7—

(a) mae hysbysiad o dan adran 37 neu 39 i gael ei drin fel pe bai wedi ei roi gan CCAUC yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau 2015; a

(b) mae hysbysiad o dan adran 38 i gael ei drin fel pe bai wedi ei roi gan CCAUC yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau 2015 fel y'i cymhwysir, gydag addasiadau, gan reoliadau 5(b) a 6 o'r Rheoliadau hyn.

**9.** Mae copi o hysbysiad o dan adran 37 a gyhoeddir ar wefan CCAUC o dan reoliad 7(b) i aros ar y wefan honno tan y cynharaf o—

(a) diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 37(2); neu

(b) dyddiad yr hysbysiad tynnu'n ôl a roddir gan CCAUC o dan reoliad 3 i gorff llywodraethu'r sefydliad mewn cysylltiad â'r hysbysiad hwnnw.

**10.** Mae copi o hysbysiad o dan adran 38 neu 39 a gyhoeddir ar wefan CCAUC o dan reoliad 7(b) i aros ar y wefan honno tan y dyddiad y byddai'r cyfnod yr oedd y cynllun ffioedd a mynediad perthnasol yn ymwneud ag ef wedi dod i ben oni bai am yr hysbysiad.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
23 Chwefror 2016